

## **CWESTIYNAU CYFFREDIN Pwy a adeiladodd neu a oedd yn berchen ar yr adeilad?**

Yn anffodus, ni ddarganfuwyd cofnodion a fyddai'n dweud wrthym pwy a adeiladodd neu a oedd yn berchen ar yr adeilad sydd bellach yn gartref i'r amgueddfa. Credir iddo gael ei adeiladu tua diwedd y 1820au, neu yn gynnar yn y 1830au.

Mae'n debyg ei fod wedi'i adeiladu gan entrepreneur/adeiladwr a oedd yn prydlesu'r chwe bwthyn dwy ystafell a'r gwyddiau ar wahân.



Mae Canllaw Masnach Piggots 1844 yn rhestru sawl 'Gwneuthurwr Gwlanen' yn ardal Penygloddfa, ac mae cyfrifiad 1851 ar gyfer Commercial Street yn rhestru Edward Gillard fel un o nifer o Wneuthurwyr Gwlanen a oedd yn cyflogi 40 o ddynton, fel unigolyn a oedd yn byw yn y stryd hon. Efallai mai ef oedd perchennog yr adeilad wedyn.

Mae'n debyg y cafodd y bythynnod eu trosi o chwech i dri yn ystod diwedd y 1800au yn ystod cyfnod o welliannau slymiau. Yn 1963 pan brynwyd yr adeilad i greu'r amgueddfa, roedd y tri bwthyn yn eiddo unigol ond wedi'u gosod i denantiaid. Prynodd Ymddiriedolaeth yr Amgueddfa nhw bryd hynny. Mae'n debyg bod y ddau lawr gwŷdd uchaf wedi'u defnyddio diwethaf ar gyfer gwehyddu gyda gwyddiau llaw yn gynnar yn y 1900au, ond defnyddiwyd yn ddiweddarach gan y tenantiaid fel storfeydd ac i hongian allan eu golch!

Rydym yn dal i edrych i weld a allwn ddod o hyd i unrhyw gyfeiriad at y perchennog gwreiddiol, a'r perchnogion hyd at y 1960au. Mae gennym enwau'r tenantiaid ar ôl 1967. Mae cofnodion y cyfrifiad wedi helpu ychydig, ond nid oedd y cyfrifiadau cynnar yn cofnodi rhifau tai.

### **Ble oedd yr ystafelloedd ymolchi?**

Yn wreiddiol, ni fyddai wedi bod ystafelloedd ymolchi, na dŵr rhedeg. Tynnwyd dŵr o bwmp cyhoeddus mewn ffynnon. Roedd y ffynhonnau hyn

yn cael eu halogi yn aml. Gosodwyd pibell garthffosiaeth yn Commercial Road ym 1857 a fyddai wedi helpu.

Roedd toiledau wedi'u lleoli yn y libart yng nghefn yr adeilad. Mae un grŵp o dri yn dal yno, er nad ydynt yn cael eu defnyddio! Byddai'r rhai a oedd yn byw yn y tri bwthyn ar ochr y stryd wedi gorfod mynd drwy'r lôn rhwng Rhif 6 a Rhif 7, er mwyn cyrraedd y toiledau.

Daeth dŵr yfed o bibellau ar gael yn yr ardal hon o'r dref yn y 1870au a'r 1880au ond mae'n annhebygol yr oedd gan y bythynnod unigol eu tapiau eu hunain.


## **Beth oedd y seler yn cael ei defnyddio i/sut wnaeth pawb gael mynediad iddi?**

Roedd seleri o dan bob bwthyn, y gellid cael mynediad atynt trwy risiau bach, yn dal i fod yn eu lle mewn tri o'r chwe bwthyn gwreiddiol. Cafwyd mynediad at y tri bwthyn blaen hefyd trwy fynedfa fechan o'r stryd, ac mae'n fwyaf tebygol y defnyddiwyd y seleri ar gyfer storio pren neu yn ddiweddarach, glo, ar gyfer y tân. Byddent bron yn sicr bob amser wedi bod yn llaith ond gallai deiliaid fod wedi storio bron unrhyw beth i lawr yno.

## **Y Model**

Yn ail ystafell yr Amgueddfa, ceir model o'r adeilad sy'n dangos gwaith adeiladu a chynllun y gwahanol ystafelloedd, gan gynnwys y grisiau allanol. Mae'r model hwn yn dangos y ffordd roedd lloriau uchaf yr adeilad yn fannau agored mawr i ddal y gwyddiau llaw.

Amgueddfa  
Wehyddu'r  
Drenewydd



Newtown  
Textile  
Museum

